Ysgol Iolo Morganwg

Broadway, Y Bont Faen/Cowbridge, Bro Morgannwg CF71 7ER
Ffôn: 01446 772358 Ffacs:01446 775284
e-bost/e-mail:YIoloMorganwg@valeofglamorgan.gov.uk
www.ysgoliolomorganwg.co.uk

Pennaeth/Headteacher: D W Evans BA MA

14 Gorffennaf/July 2010

Newyddion y Tymor

Wrth gyrraedd diwedd blwyddyn academaidd arall mae'n braf edrych nôl ar holl lwyddiannau'r ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, teimlwn ein bod unwaith eto wedi cynnal nifer o weithgareddau ac achlysuron arbennig er mwyn cyfoethogi addysg ein plant a gwerthfawrogaf ymdrechion a chefnogaeth y plant, y staff ac hefyd chi fel rhieni Ysgol Iolo.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf cafwyd asesiad ffurfiol gan aseswr TGCh ac mae'n braf hysbysu bod yr ysgol wedi ennill cydnabyddiaeth Marc Safon Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae hyn yn cadarnhau bod safonau Technoleg Gwybodaeth yr ysgol erbyn hyn yn uchel iawn. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r holl ymdrechion ar gyfer datblygu a chodi dealltwriaeth technoleg gwybodaeth staff a phlant yn yr Ysgol. Mae hyn yn glod arbennig ac yn cloriannu cydnabyddiaethau Buddsoddwyr Mewn Pobl a'r Nod Ansawdd ag enillwyd yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn.

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn unwaith eto yn ystod y tymor ym maes Criced ac wedi ennill pencampwriaeth Ysgolion y Fro. Llongyfarchiadau i bob un yn y garfan.

Llongyfarchiadau mawr i Lois Aled a James Broderick am gyflwyno ac ennill swm penodol o arian ystod Den Dreigiau Iolo. Aeth Lois ati i greu llyfr ryseitiau gan werthu'r llyfrynnau yn y ffair Haf a gwneud elw o £90 punt. Creu bathodynnau oedd bwriad James, ac yn dilyn cyfnod prysur gwnaeth elw o £123. Unigolion busnes y dyfodol rwy'n siŵr a swyddi gyda Sir Alan Sugar o bosib?

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi bod yn darllen gyda'r plant eleni, mae eich mewnbwn chi a'ch cymorth i'r plant wedi bod yn sylweddol ac yr ydych wedi cydweithio'n agos gyda ni i godi safonau darllen yn yr ysgol.

Diolch hefyd i'r criw garddio, Mr a Mrs Whelan, a Mr a Mrs Davies. Mae eu hymroddiad a'u brwdfrydedd nhw wedi sicrhau bod ardal allanol yr ysgol unwaith eto'n flodeuog ac yn lliwgar, a bod y plant wedi dysgu am wahanol blanhigion a llysiau ac am sut i dyfu pethau.

Y Ffair Haf
Diolch o galon i chi gyd am gefnogi'r Ffair Haf ac i'r CRAFf am drefnu'r stondinau. Diolch hefyd i staff yr Ysgol am baratoi nwyddau dosbarth ar gyfer y Ffair. Codwyd dros £1000!

Arian Cinio.
A wnewch chi sicrhau eich bod yn talu eich dyledion cinio erbyn dydd Gwener os gwelwch yn dda.

Poteli Dŵr a bagiau Ysgol
Ga i ofyn yn garedig i chi beidio â phrynu bagiau mawr i'ch plant- does dim lle iddynt yn yr Ysgol. Mae bagiau pwrpasol ar werth yn yr Ysgol. Cofiwch hefyd taw dim ond dŵr y caniateir i'r plant yfed yn ystod amser gwersi/chwarae. Dylai'r plant fynd adref a'r botel yn ddyddiol er mwyn ei glanhau ai hail-lenwi.

Clustlysau
Os mae eich plentyn yn bwriadu gwisgo clustlysau ym mis Medi anogwn i chi wneud trefniadau ar ddechrau'r gwyliau.

Dymuniadau Gorau

Dymunwn yn dda i Miss Maria Phillips wrth iddi ymadael a ni yr wythnos hon. Mae Miss Phillips wedi gwneud argraff fawr mewn cyfnod byr ac mae plant ein hysgol wedi elwa'n fawr o'i brwdfrydedd a'i sgiliau addysgiadol arbennig. Pob hwyl i ti!

Ac i orffen....
Ar ran staff yr ysgol diolch yn fawr i chi gyd am eich cardiau, dymuniadau da a'ch anrhegion caredig. Mae eich haelioni wedi bod yn anhygoel.

Created using easyPDF Printer
Click here to purchase a license to remove this image

This Term's News

As we approach the end of another academic year it is wonderful to reflect on all the successes of the school. Over the last year, we feel we have held numerous activities and special occasions in order to enrich the education of our children and I appreciate the efforts and support by children, staff and you as parents of the school.

During the last few weeks the school was formally assessed by an ICT assessor and following this process successfully won the ICT award for the standard of teaching and learning in Information, Communication Technology.

This confirms that the standard of Information, Communication Technology in the school is very high and recognizes the efforts towards raising standards and understanding amongst staff and pupils.

The award is a proud achievement and crowns the recognition of Investors in People and the Quality Standard that were achieved during the Autumn and Spring Term.

The schools' Cricket team has been successful once again during the term and was announced winners of the Primary schools Vale Cricket competition. Congratulations to all children who have contributed to the team and to the squad.

Congratulations to Lois Aled and James Broderick on their recent pitches and winning a sum of money during Ysgol Iolo's Dragon's Den. Lois created recipe books and made a profit of £92 at the school fair. Badge Making was James' niche and following a hard day's work he successfully made £120 profit. Budding entrepreneurs and possible future jobs with Sir Alan Sugar?

Many thanks to all parents and helpers who have listened to children read during the year. Your support and encouragement has been a key element in working with the school to further raise reading standards.

Thank you also to the Gardening Crew, Mr. and Mrs. Whelan and Mr. and Mrs. Davies, who have worked tirelessly over the year with each year group planting and growing flowers and vegetables around the school. It is with your dedication that the school is so colourful!

Summer Fair
Thank you very much for supporting the Summer Fair this year and to the CRAFF for organizing the stalls. Thanks also to the staff for preparing the class items for the Fair. We raised over £1000!

Dinner Money
Please could you ensure that your dinner fees are paid by Friday.

School Bags and Water Bottles
Please refrain from buying large school bags for your child-we haven't got much room for them. Purposeful school bags can be purchased at the school. Please also remember that we recommend your child drink only water during lessons and play time. Children should take home their bottles daily to wash and re-fill.

Earrings
If your child intends to wear earrings in September we advise you to make arrangements at the beginning of the holidays.

Best Wishes
We wish Miss Maria Phillips the very best as she leaves us this week. Miss Phillips has made a big impression in a short period of time. The children and the school has certainly benefited from her enthusiasm and her high level teaching skills. All the very best for the future!

And finally…
On behalf of the staff, thank you very much for your cards, kind wishes and generous gifts. Your generosity has been overwhelming.
The school will re-start on Tuesday 7th of September 2010. Enjoy your holidays!

Created using easyPDF Printer
Click here to purchase a license to remove this image